ADOLYGIAD CYNTAF CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 12 Ebrill 2006, am 10.30am yn Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Palmer (C)	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Benfro
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Richard Workman	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Dave Harries	Cyngor Sir Benfro
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Adrian Jones	Uned Strategaeth Gwastraff LlCC
David Harding	Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd E Morgan	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Y Cynghorydd D Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd P Lloyd	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D C Evans	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Neil Bateman	Cyngor Sir Gaerfyrddin
Carol A Williams	CS Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot

2. Cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2006

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir ac ni chodwyd unrhyw fater arall.

3. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2006

Nodwyd y rhain.

4. Adroddiad am Wastraff Peryglus

Cadarnhaodd CM fod Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cymeradwyo'r Adroddiad erbyn hyn.

Gweithredu: CM i hysbysu LlCC bod yr Adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan bob awdurdod lleol erbyn hyn a'i 'arnodi' gan y Fforwm.

5. Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol

- **Adroddiad Monitro Blynyddol 2006**

Nododd CM fod sylwadau hwyr wedi cael eu derbyn oddi wrth AA ynglŷn ag Adran 3.2.4 'Deilliannau Presennol / a Ragfynegwyd ELV' (paragraffau 3.2.6–3.2.10). Ystyriwyd nad yw'r data a roddwyd yn llawer o fudd yn rhanbarthol, gan mai dim ond tua 30% o safleoedd oedd wedi gwneud elw.

Argymhellwyd dileu Paragraffau 2.6–3.2.10 (gan gynnwys Ffigurau 23 a 24), a'u newid am un paragraff sy'n cyfuno'r rhannau perthnasol o Baragraffau 3.2.7 a 3.2.8. **Cytunwyd**.

Cytunwyd ar AMB 2006 yn amodol ar gynnwys y diwygiad. **Gweithredu**: CM i gyflwyno'r AMB i LlCC.

- **Datblygu Elfen Ofodol yn Adolygiad Cyntaf y CGRh**
  [Brîff Drafft i'r Ymgynghorwyr: Nodi 'Ardaloedd Chwilio' ar gyfer Cyfleusterau Rhanbarthol ac Isranbarthol] – Er gwybodaeth – Nodwyd.

- **Asesiad Effaith ar Iechyd**
  [Brîff Drafft i'r Ymgynghorwyr] – Er gwybodaeth – Nodwyd.

Nodwyd bod arbenigwr AA sy'n cynnal AEI wedi argymell newid y teitl i 'Asesiad Risg Iechyd', gan esbonio na ellir cynnal AEI ond ar lefel y safle / y cynnig ond ar y lefel ranbarthol / strategol, byddem yn cymharu risgiau cymharol yn unig.

Er nad oedd angen newid y teitl yn fwy na thebyg, **cytunwyd** y byddai'n rhaid esbonio'r pwynt hwn yn gynnar yn yr Adroddiad. **Gweithredu**: CM i gysylltu ag awdurdodau cydlynol.

- **Amserlen**

Cyfeiriodd GW at y papur a ddosbarthwyd ynglŷn â 'Gofynion ar gyfer Adolygu'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol' LlCC a'r ymateb cydlynol a anfonwyd ar ran y tair ardal.

Nodwyd bod LlCC, ym marn yr awdurdodau arweiniol, wedi gwneud nifer o geisiadau annerbyniol a hefyd wedi hysbysu'r Awdurdodau Cydlynu y câi'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r Adolygiad Cyntaf ei estyn hyd at 30 Mehefin 2007 yn unig (estyniad o 3 mis yn hytrach na 6 mis y gofynnwyd amdanynt).

Mae'r awdurdodau cydlynu wedi ymateb trwy ofyn yn benodol i LlCC ailystyried y penderfyniad hwn. Nodwyd bod cyfarfod nesaf Cydlynwyr Cymru gyfan wedi cael ei drefnu ar gyfer 24 Mai; fodd bynnag, mae'r awdurdodau arweiniol yn ceisio cynnal cyfarfod brys yn y cyfamser. **Gweithredu**: CM i hysbysu'r Grŵp am unrhyw gynnydd.

6. Y berthynas â Fforwm Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Cytunodd y Fforwm ar y canlynol ynglŷn â chydweithio yn y dyfodol:

- Byddai Cadeirydd y Grŵp yn dod yn aelod o'u Grŵp Swyddogion Technegol a byddai'n mynychu cyfarfodydd eu Pwyllgor Llywio a'r Fforwm llawn fel arsyllwr yn rhinwedd ei aelodaeth;
- Byddai cofnodion priodol Fforymau'r Aelodau'n cael eu cynnwys, lle bo'n gymwys, ar yr agendâu priodol;
- Cynhelid ymgynghoriad ar y ddwy ochr mewn achosion priodol;
- Byddai'r Cydlynydd FfEDOC yn mynychu cyfarfodydd ein Fforwm fel arsyllwr.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf am **10.00am, dydd Mercher 26 Ebrill, yn Siambr y Cyngor, Penllergaer**.

8. Unrhyw Fater Arall

Hysbysodd y Cyng. Palmer y Grŵp am ymweliad diweddar i'r Iseldiroedd (a drefnwyd gan WLGA) i weld llosgwyr o'r math diweddaraf. Pwysleisiodd y Cyng. Palmer fod cynhyrchu 'egni o wastraff' yn dod yn bwysicach a bod yr ymweliad yn addysgol ac yn ysgogol. Mae ymweliadau pellach i'r Iseldiroedd yn yr arfaeth.